# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 8fed o Chwefror, 2022** |
| **AMSER** | **7.00 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Tabor, Llithfaen.** |
| **CADEIRYDD** | **Ynyr Ellis** |

**1. CROESO**

Nid oedd posib i Ynyr Ellis fynychu'r cyfarfod oherwydd salwch, gan nad oedd posib i'r Is-Gadeirydd fynychu tan hwyrach y chwaith, cytunodd Gwilym Williams gadeirio. Diolchodd i LJ am ddefnydd o Tabor.

Yn bresennol roedd Lisbeth James **(LJ)**, John Owen **(JO),** William Jones **(WJ),** Sara Williams **(SW),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Sianelen Pleming **(SP)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)**

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ynyr Ellis **(YE),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH),** a'r Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ).**

**3. COFNODION CYFARFOD IONAWR 2022**

**a) <u>CYFLWYNO A MABWYSIAD</u>**
Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan WJ gyda SW yn eilio a phawb yn cytuno.

**b) <u>MATERION YN CODI</u>**

**I. TWMPATHAU**
Nid oedd gwaith atgyweirio / lledaunu twmpathau wedi ei ddarparu fel y gaddwyd fis Ionawr.
Y clerc I ofyn I Briffyrdd Dwyfor am adborth.
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan yr Adran Drafnidiaeth parthed cais am dwmpathau ychwannegol I Lithfaen – Y clerc I ail gysylltu.

**II. ARWYDD CERDDWYR AR LON FFOSYDD**
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiath gan yr adran Lwybrau – y clerc I ddilyn y mater

**4. DATGAN DIDDORDEB**

Derbyniwyd ddatganiad gan WJ ar bwynt 6

**5. DIWEDDARIADAU ASEDAU**

Adroddodd GJ ei fod wedi rhoi cais i gontractwr lleol atgyweirio'r llechi rhydd ar do'r cysgodfan – nid oedd posib cadarnhu fod y gwaith wedi ei ddarparu.

Cytunwyd bod cyflwr gweddill yr asedau'n dderbyniol.

*LLOFNODWYD ............................................................................. DYDDIAD ...............................................................................*

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS: C21/0668/43/LL – TIR GER UWCH Y DON, BWLCH GWYNT, PISTYLL, PWLLHELI, LL53 6LP**<br>Cynlluniau Dywigiedig<br><br>Cynigiodd SW ac eiliodd JO ail yrru cefnogaeth I'r cais – y clerc I weithredu. |
| **7.** | **Y MAES PARCIO, NANT** |
| | Adroddodd yn unol a chytundeb yr aelodau ei bod wedi gyrru taliadau ar gyfer y broses cofrestru ymlaen i'r cyfreithiwr. Ychwannegodd bod y blaendal a dalwyd ar ddechrau'r broses wedi ei dderbyn yn ôl.<br>Nid oedd gan SP unrhyw ddiweddariad pellach. |
| **8.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP bod trafodaethau rhwng gwahanol adrannau'r Cyngor Sir wedi gwneud y broses o dderbyn adborth parthed grantiau ac benthyciadau yn anobeithiol.<br><br>Rhannodd bryderon Pwyllgor y Ganolfan a'r pensaer bydd y tamprwydd wedi rhedeg allan o reolaeth yn fuan a bydd rhaid cysidro trosglwyddo'r Ganolfan yn ôl i ddwylo'r Cyngor Sir oni bai iddynt dderbyn rhyw fath o adborth cadarn yn fuan iawn. Ychwannegodd nid yw'n bosib gwneud cais am arian ir lotteri genedlaethol oherwydd amserlen y broses a gradd y problemau presennol.<br><br>Cwestiynodd GW beth yw'r sefyllfa gan nad yw'r Cyngor Cymuned wedi llofnodi'r les newydd – cadarnhaodd SP bod yr hen les yn weithredol a cyfredol hyd nes arwyddo'r les newydd. |
| **9.** | **CEISIADAU AM NAWDD** |
| | Cytunodd yr aelodau nad oedd holl geisiadau am nawdd wedi eu derbyn, cytunwyd i drafod y mater fis nesaf. |
| **10.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a) SW – BAW CI**<br>Adroddodd SW am bryderon oedd wedi ei gorfodi i wneud cwyn personol ddwy waith yn ystod y mis ir Cyngor Sir oherwydd budreddi baw ci y tu allan i'w heiddo er gwaethaf i'r Cyngor Cymuned sefydlu bin arbennig ychydig latheni i ffwrdd yn ogystal a pryderon am iechyd ei phlant oedd wedi ei gerdded i fewn i'w thy.<br>Nodwyd bod cwynion eraill hefyd wedi ei derbyn am gyflwr y lon rhwng Tabor a'r iard glo, eto er gwaethaf sefydlu bin, gyda enw un preswylydd yn codi yn rheolaidd.<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir.<br><br>**b) SW – PARCIO**<br>Rhannodd SW bryderon am geir yn parcio yn berygls wrth Moreia Terrace yn Llithfaen. Cytunwyd bod y rhan fwyaf or ceir yn arbed modurwyr rhag gor yrru ond bod rhai yn parcio'n beryglus ar y gornel gyferbyn a Gwen y Wawr. Y clerc i adrodd y gwyn i'r Cyngor Sir<br><br>**c) WJ – BIN BAW CI PISTYLL**<br>Nodwyd bod y bin yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd ar gyfer sbwriel a tybiwyd bod hyn oherwydd ei leoliad.<br>Y clerc i ofyn am adborth gan swyddog priodol y Cyngor Sir. |

*LLOFNODWYD* ............................................................................... *DYDDIAD* ...........................................................................

| | |
|---|---|
| | **d) WJ – YMHOLIADAU AM DDIFFIBLWR I PISTYLL**<br>Rhannodd WJ ymholiad gan drigolion Pistyll am ffynhonellau nawdd am diffiblwr i Pistyll. Rhannod SP a GT gwybodaeth i law.<br><br>**c) GOLWG AR Y GWAIR RHWNG Y TOILED A'R CAPEL YN LLITHFAEN**<br>Trafodwyd cyflwr dychrynllyd y llecyn gwair gyferbyn a'r Capel – cytunwyd buasai ail ofyn am newid ei bwrpas i fod yn gylfan yn gwneud synwyr.<br>Y clerc i wneud ymholiadau |
| **11.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a) ARCHWILIO CYMRU - CYNLLUN FFIOEDD 2022-23**<br>Croesawyd y wybodaeth, nid dderbyniwyd unryw sylwadau.<br><br>**b) LLYWODRAETH CYMRU - STRATEGAETH BWYD CYMUNEDOL**<br>Croesawyd y wybodaeth, nid dderbyniwyd unryw sylwadau.<br><br>**c) CRONFA CYMUNEDAU MENTRUS – RHESTR O DDARPARWYR**<br>Croesawyd y wybodaeth, nid dderbyniwyd unryw sylwadau.<br><br>**d) RHEOLWR ASEDAU BWRDEISTREFOL – TOILEDAU LLITHFAEN**<br>Y clerc I ail gadarnhau nad oedd y Cyngor yn dymuno datgan unrhyw ddiddordeb yn y safle.<br><br>**e) DIFFYG YMATEB A CHYFATHREBU CYNGOR GWYNEDD – YMATEB DAFYDD GIBBARD**<br>Croesawyd y wybodaeth. Y clerc i ddarparu rhestr o drafferthion cyfarthrebu.<br><br>**f) BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU**<br>Croesawyd y wybdaeth, ni ddebyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**g) DAFYDD RHYN – TIR COMIN LLITFAEN**<br>Gweler pwynt 7 |
| **12.** | **CYLLID** |
| | **a) <u>CYSONIAD</u>**<br>Cymerdwywyd cysoniad y cyfrifon hyd at Chwefror 2022 gyda'r aelodau yn cytuno ei gywirdeb<br><br>**b) <u>CYFRIFLEN BANC</u>**<br><br>**<u>Cyfrif Cyfredol – 1af o Ionawr – 31 o Chwefror 2021</u>** |

| **BALANS CYCHWYN -** | | **£11,647.26** |
|---|---|---|
| **RHIF SIEC** | **TALIADAU** | **DERBYNIADAU** |
| 201225 | 21.95 | |
| 201224 | 160.00 | |
| 201226 | 130.00 | |
| Taliadau Banc | 6.20 | |
| 201227 | 1,084.00 | |
| Ad daliad y Cyfreithiwr | | **300.00** |
| **BALANS CAU –** | | **£10,545.11** |

*LLOFNODWYD ............................................................................ DYDDIAD ............................................................................*

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| | **Cyfrif Cadw – 7fed o Ragfyr – 6ed o Ionawr 2021** |

| **BALANS CYCHWYN -** | **£2,660.94** |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | 0.00 |
| **BALANS CAU** | **£2,660.94** |

**TALIADAU I'W CYMERADWYO**

Darparwyd tal o £1,084.00 I Parry Davies Clwyd Jones a Lloyd yn ystod y mis am waith cychwyn cofrestru'r Maes Parcio.

| | | |
|---|---|---|
| **201228** | Cyflog a thruliau Clerc | 187.50 |
| **201229** | G.Jones - Nwydda | 20.00 |
| **210226** | Roberts Electrical | 130.00 |

| | |
|---|---|
| **13.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | **08/03/22 Tabor, Llithfaen** |

*LLOFNODWYD .............................................................................. DYDDIAD ..........................................................................*